# Ffermdy Hendre'r-ywydd Uchaf (7)



## Beth yw e?

- Ffermdy a adeiladwyd gyntaf ym 1508 yn Llangynhafal, Sir Ddinbych, yw Hendre’r-ywydd Uchaf.
- Mae pared yn rhannu’r ffermdy hwn yn ddau. Roedd y teulu’n byw ar un ochr, a’r gwartheg ar yr ochr arall.

## Pwy oedd yn byw yma?

- Robert Foulks a’i deulu oedd yn byw yma, a bu ym meddiant yr un teulu am ddwy genhedlaeth.

## Ffeithiau difyr

- Dyma enghraifft o gartref iwmyn yn ystod y cyfnod pan oedd Harri VII yn frenin.
- Mae’r to a’r waliau yn cael eu cynnal gan bedair set o nenffyrch derw, sef coed crwm mawr sy’n ymestyn o’r llawr i frig y to fel siâp A fawr.
- Mae’r tŷ wedi’i rannu’n bum rhan, gyda dwy ran wedi’i neilltuo ar gyfer y da byw, a’r tair rhan arall ar gyfer y teulu. Mae'n debyg mai ystafell waith, neuadd neu ystafell fyw, ac ystafell wely oedd ystafelloedd y teulu yn y tŷ.
- Roedd tân agored yng nghanol y neuadd mwy na thebyg. Byddai’r mwg yn dianc drwy’r ffenestri, gan nad oes simnai yno.
- Mae’r waliau wedi’u gwneud o blethwaith a chlai, sef ffrâm bren wedi’i phlethu a’i llenwi â chymysgedd o fwd, gwellt a thail gwartheg, ac wedi’i gynnal gan ffrâm bren.
- Mae muriau’r tŷ wedi’u gwyngalchu. Roedd hyn yn gyffredin yn y cyfnod hwn.

## Am ragor o wybodaeth?

- Ewch i Ffermdy’r Garreg Fawr i gymharu dau adeilad o gyfnod y Tuduriaid.